RHIFYN
ISSUE
32
26.10.20

Llais Llantrisant

DIOLCH
THANK YOU

Mae gwyliau hanner tymor wedi cyrraedd a hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi fel rhieni a gwarcheidwaid em eich cyd-weithrediad a'ch cefnogaeth barhaus dros yr wyth wythnos a aeth heibio. Roedd rhai o'r disgyblion, yn naturiol, ychydig yn bryderus wrth ddod trwy ddrysau'r ysgol ar ddechrau mis Medi, ond buan yr ymgyfarwyddodd pawb â'r drefn newydd a hynny yn ddirwgnach - rydym mor falch ohonynt. Hoffwn hefyd ddiolch i holl staff yr ysgol, staff y gegin a'r staff o gwmni glanhau'r ysgol 'SOLO' sydd wedi gweithio yn ddiflino dan amgylchiadau heriol, a hynny gyda gwên ar eu hwynebau bob amser. Gobeithio y cewch amser i ymlacio yn ystod y gwyliau; cadwch yn ddiogel ac yn iach ac fe welwn ni chi ar Dachwedd 2ail.

The half term holidays have arrived and we should like to take this opportunity to thank you as parents and carers for your continued co-operation and support over the past eight weeks. Some of the pupils were, naturally, a little apprehensive when they came through the school doors at the beginning of September, but they all settled quickly into the new routine without complaining and we are so proud of them. I would also like to thank all the school staff,I the kitchen staff and the cleaning staff from 'SOLO' who have worked tirelessly under challenging circumstances and always with a smile on their faces. We hope you find time to relax during the holidays; stay safe and healthy and we'll see you on November 2nd.



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

02.11.20 - Plant yn dychwelyd
Children return
13.11.20 - Diwrnod Plant Mewn Angen
Children In Need Day
16.11.20 - Wythnos Wrth Fwlio
Anti-bullying Week

GWERSI FFRANGEG MEWN CYDWEITHREDIAD AG YSGOL LLANHARI
FRENCH LESSONS IN PARTNERSHIP WITH YSGOL LLANHARI



Mae plant Blynyddoedd 5 a 6 wrth eu boddau yn derbyn gwersi Ffrangeg gan Madame Hedd bob wythnos. Diolch i Ysgol Llanhari am gyd-weithio gyda ni.
Year 5 and 6 pupils have great fun each week whilst taking part in French lessons provided by Madame Hedd . We should like to thank Ysgol Llanhari for their partnership working.





YMWELIAD PC LLOYD
PC LLOYD'S VISIT

Diolch i PC Lloyd a ddaeth i siarad â phlant Blwyddyn 6 yr wythnos hon. Bydd PC Lloyd yn dychwelyd nifer o weithiau eleni i siarad â phawb arall yng Nghyfnod Allweddol 2. Negeseuon gwerthchweil sydd gan PC Lloyd i'r plant wrth iddo ddilyn cynllun @Schoolbeat.
Many thanks to PC Lloyd who visited Year 6 pupils this week, and who will return many times this year to speak to all pupils in Key Stage 2. PC Lloyd has very worthwhile messages for the children as he delivers @Schoolbeat sessions in each class.

SchoolBeat.org

ABSENOLDEBAU
ABSENCES



Ers sbel, bellach, mae Mrs Krieger yn anfon negeseuon testun atoch os nag ydym yn clywed gennych chi er mwyn esbonio absenoldeb eich plentyn / plant. Weithiau, nid ydym yn derbyn galwad ffôn neu ebost nôl am sbel. Y dyddiau hyn, mae Gwasanaeth Presendoldeb a Lles yr Awdurdod Lleol yn cysylltu â ni yn rheolaidd felly gofynnir yn garedig i chi gysylltu i'n hysbysu cyn i ni orfod rhoi enwau plant sydd yn absennol y diwrnod hwnnw a, hefyd, osgoi ymweliadau cartref efallai. Diolch am eich cefnogaeth.
For some time now, Mrs Krieger sends text messages to parents if we have not been informed of a pupil absence. Often, we are not contacted back until later that day. The Local Authority's Attendance and Wellbeing Service now regularly contact us to look into unexplained absences so we kindly ask that you inform us of an absence and the reason behind it in a timely manner, please. This will prevent us from having to provide names of absent pupils that day and to avoid any potential home visits. Thank you for your support.

Y GRhA
THE PTA

Hoffem fanteisio ar y cyfle i ddiolch i aelodau'r GRhA am fwrw ymlaen i feddwl am ffyrdd newydd i godi arian at gronfa'r pwyllgor yn ystod y cyfnod heriol sydd o'n blaenau. Yn ystod y cyfarfod diwethaf, cytunodd y pwyllgor i ariannu nifer o brosiectau a fydd yn dod â nifer o adnoddau newydd i'r ysgol ar gyfer y plant a mawr yw ein diolch am y penderfyniad yma. Byddwn yn gadael i'r GRhA gyhoeddi'r newyddion da yn llawn eu hunain maes o law! Cofiwch fwrw golwg ar dudalen y GRhA ar wefan yr ysgol ac ar y llythyron i weld beth sy'n digwydd a sut y gallwch chi gyfrannu a chefnogi.

We should like to take the opportunity to thank the members of the PTA for their hard work in thinking of new ideas to raise money towards their funds during this challenging period which faces us. During the most recent meeting, it was agreed that the PTA would finance a number of projects which will bring many new resources to school for the children - we are most grateful. We shall let the PTA announce this good news shortly! Remember to have a look at the PTA's page on the school website and the letters section to see what is happening and how you can take part and show your support.

CLWB 150
150 CLUB

Cofiwch am fenter newydd y GRhA! Cewch ragor o fanylion fan hyn.

Remember the PTA's newest venture! You can find further details here.





Ewch i / *Remember to visit :* **www.yggglantrisant.cymru**

DIWRNOD Y CENHEDLOEDD UNEDIG
UNITED NATIONS DAY

Diolch yn fawr iawn i chi am eich cefnogaeth trwy ddarparu gwisgoedd bendigedig i'r plant ar ddydd Gwener, Hydref 23ain. Dyma ychydig o luniau o'r plant yn dathlu amrywiaeth ar y diwrnod. Cofiwch fwrw golwg dros yr albwm lluniau ar wefan yr ysgol.

Many thanks to you all for providing the great costumes we saw the children wearing on Friday, October 23rd. Below, are a few photographs of the children celebrating diversity on the day. Remember to take a look at the photo album on the school website.

































Dilynwch ni / *Follow us :* **@YGGGLlantrisant**